



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng. Laura Fielding

Dirprwy Faer: Cyng. Alun Rhys Jones

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER,
GORFFENNAF Y 19^{eg} 2023**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
5. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cyfetholiad i Ward Pandy.
6. Derbyn gwybodaeth staffio a'r Ddogfen Adolygu Staff.
7. Derbyn gwybodaeth am Ymgyrch Gwrando Cymunedol Llanfairfechan.
8. Derbyn gwybodaeth am a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer stondin y Cyngor Tref yn Llanfest.
9. Derbyn adroddiad Data am y Farchnad Bwyd a Chreffttau o Ragfyr 2022 hyd at Fai 2023.
10. Derbyn gwybodaeth am a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer fainc picnic sy'n addas i bawb yng Ngerddi Fictoria.
11. Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Ariannol
12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Gorffennaf 2023

Taliadau i'w cyflwyno
1. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Gorffennaf 2023 £4700
2. Menter Iaith Cyfieithu Cofnodion Mehefin a Gorffennaf £416.21
3. Viking – rholiau bach o bapur tŷ bach a thyweli sychu dwylo £119.88
4. Amazon Business – tatŵs dros dro - £2.25
5. Amazon Business – tatŵs dros dro – £5.46
6. Amazon Business – tatŵs dros dro - £8.98
7. Un Llais Cymru – Hyfforddiant i Gynghorwyr – Sgiliau Cadeirio y Cyng. Alun Rhys Jones £38.00
8. Aelodaeth Flynyddol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) ar gyfer 2023 - £222.00
9. Lwfansau'r Cynghorwyr 2023/24 13 x £156 yn unol â'r gofynion gorfodol £2028

13. Trafod materion cynllunio
0/50876 23 Parc Henblas Llanfairfechan Conwy LL33 0RW Torri un coeden dderw ac un goeden leim
0/50846 Sunnyholme Ffordd Bryn Llanfairfechan LL33 0DY Addasu garej
14. Derbyn gohebiaeth
15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd
16. Derbyn materion brys i'w trafod

COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN

DYDD MERCHER, GORFFENNAF Y 19^{eg} 2023

Yn Bresennol: Cadeirydd: Maer Laura Fielding; Dirprwy Faer Alun Rhys Jones; Cyng. Leena Farhat; Cyng. Andrew Hinchliff; Cyng. Rob Jewell; Cyng. Chris Jones; Cyng. Gareth Jones; Cyng. Nia Jones (ar Zoom); Cyng. Elgan Owen; Cyng. Christine Roberts; Cyng. Preben Vangberg (ar Zoom) Clerc y Dref Jayne Neal

1. Estynnodd y Maer Laura Fielding groeso i bawb i'r cyfarfod.

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng. Penny Andow

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)

Cyng. Elgan Owen Eitem 6 – cysylltiad gwaith oherwydd fe fydd ynghlwm â'r panel grant; Eitem 7 cysylltiad gwaith i gynghori'r grŵp prosiect

Cyng. Christine Roberts Eitem 5 – cyfaill personol

Cytunwyd y gellir recordio'r cyfarfod er dibenion llunio'r cofnodion

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Yn ymweld Egin – cefnogi cymunedau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Mater a godwyd gan breswlydd: deiseb ynghylch gosod croesfan sebra ar Ffordd y Pentref ger y fynedfa i gerddwyr i'r Co-op. Nid yw'n dderbyniol tybio y gallai pobl sydd â phroblemau symudedd gerdded i lawr at y goleuadau traffig. At hyn, nid yw'r goleuadau traffig yn caniatáu digon o amser i groesi'n ddiogel. Mae'r cyfyngiad cyflymder o 20mya eisoes ar waith yn yr ardal ac felly nid yw'n cael unrhyw effaith ar y risg. Mae nifer sylweddol o bobl yn byw yn ardal Parc Hen Blas a Ffordd y Parc gan ei fod yn agos at y Co-op, ond maen nhw bellach yn teimlo gormod o ofn croesi i'r Co-op oherwydd y traffig. Dangosodd arolwg anffurfiol o'r traffig fod nifer syfrdanol o geir yn teithio ar hyd y ffordd bob 30 munud (rhwng 100 a 140) ynghyd â nifer rheolaidd o gerddwyr (rhwng 6 ac 18 o unigolion). Dydy hyn ddim yn peri problemau i bobl hŷn gyda phroblemau symudedd yn unig. Soniodd rhieni plant hefyd nad ydyn nhw'n caniatáu i'w plant gerdded i'r ysgol ar eu pen eu hunain oherwydd pryderon ynghylch traffig yn yr ardal hon. Mae'r mynedfeydd o amgylch y co-op yn arbennig o beryglus a byddai croesfan sebra yn fodd o lywio'r cerddwyr tuag at y fynedfa i gerddwyr yn ddiogel. Clerc i e-bostio CBS Conwy i'w holi am gyfarfod safle gyda'r preswylwyr er mwyn trafod y mater. Soniwyd bod y rheolau'r ffordd fawr newydd yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr sydd eisoes yn croesi ffordd, ond nid yw hyn yn cael ei ddeddfu. Clerc i e-bostio Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu a rheolwr y Co-op i'w gwahodd i'r cyfarfod safle.

Penderfynwyd derbyn a nodi

Yn ymweld Gwyneth Jones o Egin – cefnogi cymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd: Mae hon yn rhaglen sydd wedi'i hariannu gan y Loteri Genedlaethol i gefnogi grwpiau cymunedol i fwrw iddi i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd neu fynd ati i fyw'n fwy cynaliadwy. Mae'r rhaglen yn darparu hwyluswyr, mentoriaid a chynghor cyfoedion er mwyn i grwpiau allu cynnal prosiectau sy'n ymwneud â'r hinsawdd ac ennill cyllid i'w datblygu ymhellach. Fe gynhyrchwyd pecyn cymorth monitro a gwerthuso i helpu grwpiau i asesu'r deilliannau posibl a soniwyd ei fod yn adnodd ardderchog i grwpiau ei ddefnyddio. Soniodd un o'r cynghorwyr bod modd ei ddefnyddio mewn sawl ffordd. Mae'n rhaid profi bod y prosiectau'n fuddiol i'r gymuned a gan hynny mae ymgynghori a monitro'n hollbwysig. Mae llwyfan ar-lein y gallai unrhyw un ymuno ag o ac mae'r rhaglen wedi'i hariannu tan 2029 sy'n caniatáu gwaith trylwyr. Mae'r rhaglen yn ddwyieithog ac mae'r rhan fwyaf o'r mentoriaid yn medru'r ddwy iaith.

Pwynt 1 Soniwyd fod perygl i lefel y môr godi, ond mae'r cyngor sir wrthi'n mynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae llifogydd yn rhan uchaf y dref yn peri pryder ac fe ddylid ei ddwyn i ystyriaeth gan fod yr afon yn bwynt pwysau penodol.

Pwynt 2 Oes modd defnyddio cyllid y loteri i ariannu astudiaeth ddichonoldeb? Oes, gallai'r cyllid ariannu cyngor technegol gan weithiwr proffesiynol yn y maes ar gyfer astudiaethau dichonoldeb.

Pwynt 3. Mae'n rhaid i grwpiau ymwneud â'r rhaglen gyfan cyn mynd ati i geisio am y grant. Mae lluo o wahanol syniadau ac mae'n rhaid ystyried yn ofalus pa syniad y dylid ei roi ar waith.

Pwynt 4 Mae'n ddifyr bod addasu wedi'i drafod – mae hwn yn bwnc y mae angen mynd i'r afael ag ef. Fe wyddom y bydd newidiadau amgylcheddol ac fe fydd angen addasu.

Pwynt 5 Ymysg y grwpiau allweddol posibl mae'r Bartneriaeth Cynllunio Cymunedol oherwydd fe soniwyd am gynllun trydan dŵr yn yr adborth gan breswylwyr. Grŵp allweddol posibl arall yw Pwyllgor y Neuadd Gymunedol

sydd wedi derbyn gwybodaeth yn dilyn archwiliad ynni sy'n argymhell paneli solar a deunydd ynysu i leihau'r defnydd o danwydd.

Caiff manylion yr hwylusydd lleol ei rannu gyda'r Cyngor Tref a gallai digwyddiad gwybodaeth fod o fudd er mwyn ystyried pa brosiectau y dylid eu rhoi ar waith. Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo Cyfetholiad i Ward Pand y.

Mae Sharne-Marie Bellis wedi ymgeisio am gyfetholiad yn dilyn cyfnod estynedig o hysbysebu. Fe ddosbarthwyd CV a llythyr atodol cyn y cyfarfod ac roedd Sharne yn bresennol. Cymeradwywyd y cyfetholiad.

Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

Llofnodwyd a chyflwynwyd y datganiad Derbyn Swydd. Estynnwyd croeso i'r Cyng. Sharne- Marie Bellis i Gyngor Tref Llanfairfechan. Penderfynwyd derbyn a

nodi

5a Derbyn a chymeradwyo cofnodion a'r Rhestr Weithredu

Roedd yr eitem hon wedi'i hepgor o'r agenda mewn camgymeriad ac fe'i hychwanegwyd yn ystod y cyfarfod.

Eitem 8 Roedd yr ymgynghoriad cyn cynllunio ar gyfer y llain tua'r Dwyrain o ardal Gorwel wedi'i dderbyn gan y datblygwr ac fe ddywedodd y byddai'n falch o dderbyn unrhyw wybodaeth bellach fyddai'n dod i'r fei.

Eitem 16.1 Mae'n ymddangos bod gwaith arolwg ar y gweill ynghylch yr afon yn gollwng dŵr gan fod y ffordd ar gau dros nos ar Orffennaf y 27^{ain} / 28^{ain}.

Rhestr Weithredu:

Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council Action List			
Date: 19th July 2023			
NFI = no further information			
	Item:	Date:	Progress
1	Potholes in Mill Road	17/04/2023	Under observation by CCBC
2	Nant y Pand y car park	NFI	with legal awaiting further work on it
3	Paddling Pool	NFI	work started no details have been sent re; contribution as yet
4	Promenade car park & flood protection	update	coastal funding has been received Cllr Penny chasing up details
5	Bus stop damage Y Bont west & east	NFI	email sent for update 5/07/2023
6	overgrown hedges at Mount Road	email	report about brambles staraching cars - has been sent to ERF
7	shop flags	update	example flags received
8	resident concern about flytipping in Station road	NFI	awaiting update
9	Benches project	update	last plaque has been fitted on The Cob benches
10	Station Road Garden	update	progress made; the item will be added to next agenda
11	MUGA West Shore	update	information about possible grant funding to be shared
12	Petanque court	update	awaiting invoice
13	Audit	update	external audit will be sent out by Friday 18th August
14	Kickstarter Community Plan	NFI	email sent for update 5/07/2023
15	Ward Vacancy Pand y	agenda	on agenda co-option application to be completed
16	Llanfest	cancelled	to discuss Family Fun Day
17	Police information	update	PCSO is now working from the hall on a Monday where possible
18	River leak under railway bridge	NFI	email sent for update 5/07/2023
19	Pagoda shelter	update	Mayor has bought paint from Mayor's allowance and will be organising a work party
20	Beach huts	update	Llais y Lle and Carneddau project are interested. Cartrefi community chest may fund
21	Calan Gaeaf celebrations	on agenda	fireworks provisionally booked for 31st October
22	Police information	update	PCSO is now working from the hall on a Monday where possible

4. Maes parcio'r promenâd ac amddiffyn rhag llifogydd – cadarnhaodd y Cyngorydd Sir y bu cais CBS Conwy am gyllid arfordirol yn llwyddiannus. Cadarnhaodd CBS Conwy bod cyllid wedi'i gadarnhau ar gyfer gwefrwyr ceir trydan. Clerc i ofyn i dîm CBS Conwy am ddod i'n cyfarfod ar Fedi'r 6ed i gyflwyno diweddariad swyddogol ar waith datblygu'r maes parcio. Anfonwyd pryderon dros e-bost ynghylch tudalen gwe'r prosiect arfordirol ac mae gofyn i'r Clerc fynd i'r afael â'r e-bost cyn gynted â phosibl. Mynegwyd pryderon nad yw'r Cyngorydd Sir ar gyfer Bryn wedi ymateb i'n hymholiadau.

6. Gwrychoedd wedi gordyfu ar Ffordd Mount – mae hyn yn achosi problemau i ofalwyr sy'n gweithio yn yr ardal a gallai effeithio ar y gwasanaeth yn y pendraw. Clerc wedi adrodd am hyn ac mae'n aros i gael gwybod pwy sy'n berchen ar y gwrychoedd. Cadarnhawyd mai CBS Conwy sy'n gyfrifol amdanyn nhw. Clerc i e-bostio CBS Conwy i godi'r mater hwn eto.

7. Baneri Siopau – mae enghraifft o'r dyluniad wedi'i anfon, ond mae'n un ochr felly nid yw'r llythreniad yn effeithiol. Cytunwyd y bydd modd gosod baneri dyluniad un ochr newydd gyda'r arfbais yn unig a dim llythrennau wrth i'r hen faneri ddirywio.

Clerc i fynd i'r afael â hyn fel sy'n briodol.

9 Prosiect Meinciau Cyhoeddus Llanfairfechan – mae plac terfynol wedi'i osod ar y meinciau pren ar Y Cob. Mae yna dal le i ychwanegu enwau ar yr hen feinciau metel ar Y Cob ac ar y meinciau metel newydd o amgylch y dref.

10 Gardd Ffordd yr Orsaf – Mae'r gwaith wedi'i ohirio am y tro gan fod arianwyr Cadwch Gymru'n Daclus yn gofyn am warant pum mlynedd ar y safle ac mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd ond wedi cynnig opsiwn 1 flwyddyn. Rydym yn aros am ymateb gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd ynghylch sut i fynd rhagddi gyda hyn.

11 Maes Chwarae Aml-ddefnydd Traeth Pen Morfa – Mae Clwb Pêl-droed Llanfairfechan yn dal yn awyddus i gydweithio er mwyn adfer y Maes Chwarae Aml-ddefnydd a chysylltu gyda Pen Phoenix am ragor o wybodaeth. Rydym yn aros iddyn nhw ryddhau'r cais am arian. Mae'r clwb pêl-droed eisiau defnyddio'r llain o dir ger y clwb bowlio i gynnal sesiynau hyfforddiant i'r tîm ieuencid. Byddwn yn ychwanegu ffens uchel i'n cais am grant er mwyn diogelu'r lawnt fowlio. Cytunwyd y gellir defnyddio'r llain yn achlysurol er mwyn cynnal sesiynau hyfforddiant i'r timau iau yn y cyfamser. Mae yna dwll bach ar ochr y cwrt tenis. Clerc wedi e-bostio'r Swyddog Chwarae i weld a oes angen atgyweirio'r twll. Cytunwyd atgyweirio'r twll pe bai angen.

14 Cynllun Cymunedol Kickstarter – mae pryderon ynghylch oedi gyda rhoi'r bartneriaeth ar waith a dydyn ni heb rannu'r cynllun drafft a'r ymateb i'r ymgynghoriad hyd yma. Rydym yn bwriadu rhannu'r ddogfen yn y Diwrnod Hwyl i'r Teulu ym mis Awst.

17 Gwybodaeth yr Heddlu – Mae'r Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu bellach yn gweithio o ystafell Lloyd Hughes ar ddydd Llun lle bo modd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni rhagor o oriau yn y dref.

19 Lloches Pagoda – Mae'r Maer wedi prynu'r paent erbyn hyn ac mae'n aros am dywydd gwell er mwyn trefnu gweithgor. Bydd yn anfon e-bost ynghylch hyn.

20 Cabanau ar y Traeth – trin a thrafod gyda CBS Conwy i gael gwared ar y graffiti sy'n ymwneud â chyffuriau. Y Cyngor Tref yn ystyried cydweithio gyda Llais y Lle, Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu, prosiect Carneddau, Gwasanaethau Ieuencid Conwy a Chist Gymunedol Cartrefi i ychwanegu murlun natur Glan y Môr / Carneddau ar y cabanau yn yr hirdymor.

21 Dathliad Calan Gaeaf – Cytunwyd y dylid trefnu'r dathliadau ar gyfer Hydref yr 31^{ain} ger y promenâd ac ar y cyd â'r arddangosfa tân gwyllt. Clerc i gydweithio gyda Llais y Lle i ddatblygu'r prosiect. Gofynnodd un o'r aelodau am y defnydd o dân gwyllt distaw. Mae hyn wedi'i drafod eisoes ac fe gytunwyd, os yw'r arddangosfa wedi'i hysbysebu'n briodol ymlaen llaw, bydd perchnogion cŵn wedi'u rhybuddio a gallan nhw sicrhau eu bod yn trefnu gofal i'w hanifeiliaid nerfus. Y broblem yw bod angen chwarae cerddoriaeth ar y cyd â'r tân gwyllt distaw ac fe fyddai hyn yn cynyddu'r gost yn sylweddol. Mae arddangosfeydd eraill wedi mynd ati i ddefnyddio dronau ond mae'r rhain yn llawer drytach nac ein cyllideb o £1800. Byddai'n well cael coelcerth ar gyfer y digwyddiad Calan Gaeaf ond mae'r risgiau'n rhy uchel. Awgrymwyd y gellir llosgi anifail neu berson gwiall canolig ei faint i gyd-fynd â'r ŵyl. Byddwn yn ystyried syniadau ac opsiynau pellach, a chaiff unrhyw ddatblygiadau eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Soniwyd y bydd angen cynnal trafodaethau gyda CBS Conwy ynghylch gwaith yn y maes parcio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau.

Cynigwyd gan y	Cyng. E Owen	Eiliwyd gan y	Cyng. L Farhat	Yn Unfrydol	Penderfynwyd
<u>cymeradwyo a nodi</u>					

6. Derbyn gwybodaeth staffio a'r Ddogfen Adolygu Staff

Dosbarthwyd dogfen cyn y cyfarfod ac fe'i nodwyd wedi'i darllen. Lluniwyd y ddogfen er mwyn darparu tystiolaeth ategol ar gyfer cynnig datblygu prosiect Neuadd Gymunedol y Dref i gyflogi aelod newydd o staff i weinyddu'r ganolfan. Mae rôl Clerc y Dref bellach yn fwyfwy prysur a hynny yn sgil gwaith ychwanegol sydd ei angen ynghlwm â phrosiectau ariannu allanol a'r agenda gwasanaethau cynaliadwy / trosglwyddo asedau yn CBS Conwy. Ar yr un pryd, mae'r Neuadd Gymunedol yn cynnal rhagor o ddigwyddiadau adloniant proffil uchel ac mae angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn cynhyrchu rhagor o refeniw. Nid oes modd cyflawni'r nodau hyn gyda'r ddibyniaeth bresennol ar staff y Cyngor Tref a'r gobaith yw y bydd modd manteisio ar gyllid allanol er mwyn cyflogi gweinyddwr canolfan bwrpasol ar gyfer y neuadd. Roedd y pwyllgor staffio wedi cyfarfod i ddwyn i ystyriaeth y ddogfen ac fe wnaethon nhw gytuno y dylid bwrw iddi gyda'r cynlluniau, a bydd y sefyllfa staffio yn cael ei monitro. Mae Pwyllgor y Neuadd Gymunedol wedi cytuno ar ateb tymor byr i helpu i ddarparu yswiriant wrth gefn pan gaiff y neuadd ei llogi fel sy'n briodol.

Penderfynwyd derbyn a nodi

7. Derbyn gwybodaeth am Ymgyrch Gwranddo Cymunedol Llanfairfechan

Mae Llanfairfechan wedi'i ddewis fel safle arolwg ar gyfer y prosiect hwn sy'n bwrw golwg ar safbwyntiau preswylwyr ynghylch gwasanaethau dementia yn yr ardal. Gellir ei gwblhau ar bapur neu [ar-lein](#). Mae'r Clerc wedi rhannu'r ddolen ar-lein yn eang ac mae'r cynghorwyr wedi mynd ati i rannu'r arolygon gyda'r preswylwyr. Mae'r grŵp yn gobeithio arolygu o leiaf 10% o'r boblogaeth erbyn diwedd mis Hydref. Gallai'r Clerc ddarparu copïau ar bapur os oes angen ac maen nhw ar gael hefyd yng nghyntedd y neuadd ac yn y llyfrgell. Rydym yn ceisio ymatebion gan bobl o bob oedran ac felly mae gwasanaethau ieuencid Conwy wedi cymryd swp ohonyn nhw. Clerc i anfon yr arolwg at yr unigolion sy'n rhan o'r gronfa ddata Cymorth Stryd lle'n bosibl.

Penderfynwyd derbyn a nodi

8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau am stondin Cyngor Tref yn Llanfest.

Nodwyd fod pawb yn siomedig nad oes modd cynnal Llanfest, a byddai'n braf pe bai modd cynnal digwyddiad i deuluoedd yn ystod gwyliau'r haf. Cynnig i gynnal Diwrnod Hwyl i'r Teulu o 10yb tan 2yp ar ddydd Sadwrn, Awst y 26ain. Y syniad yw cynnal stondinau cymunedol gyda gweithgareddau hwyl a Darganfod Llanfairfechan gyda chalendrau, castell bownsio wedi'i ariannu gan y Cyngor Tref, stodin ymgynghori Gwasanaethau Cynaliadwy y Cyngor Tref, gweithgaredd tatws ffug y Cyngor Tref, ffeirio llyfrau, ffeirio tegau, a stodin gwisg ysgol os yn bosibl. Y Cyngor Tref i ariannu'r castell bownsio a byrbrydau. Mae'n bosibl ei hysbysebu fel Penwythnos Hwyl i'r Teulu gan fod Noson Werin Gymreig gyda'r nos ac adloniant i blant gan Darganfod Llanfairfechan yn Split Willow ar y dydd Sul. Clerc i drafod gyda grwpiau partner a bwrw iddi i gynllunio a datblygu'r prosiect. Cynigwyd dyddiadau ar gyfer y digwyddiadau arfaethedig canlynol:

Calan Gaeaf – Hydref yr 31^{ain} gorymdaith llusernau, arddangosfa tân gwyllt a chystadleuaeth gwisg ffansi (ar y cyd â Llais y Lle) / **Sul y Cofio Llanfairfechan – Tachwedd y 12^{fed}** – Mae'r Clerc yn gobeithio y bydd rhagor o gynfilwyr yn dod i'r digwyddiad ac mae wrthi'n trafod gyda Chlwb Brecwast y Cynfilwyr / **Ffair Nadolig Llanfairfechan – Rhagfyr y 10^{fed}** – Adloniant, ffair bleser, ffair bwyd a chrefftau, groto Siôn Corn, marchnad gymunedol / **Gŵyl Barcud Llanfairfechan – diwedd Ebrill** – cychwyn Mai, dyddiad i'w Gadarnhau. Digwyddiad diweddglor Maer Laura Fielding ar gyfer 2023/2024. Er mwyn helpu'r tîm staff, gofynnwyd i'r cynghorwyr fynychu'r digwyddiadau. Maen nhw'n gyfle da i gwrdd â'r preswylwyr fel aelodau etholedig. Caiff arolwg drafft y Cyngor Tref ynghylch gwasanaethau cynaliadwy ei lansio ar Awst y 26ain ac fe drafodwyd a chytunwyd ar y diweddariadau. Bydd y gwaith paratoi yn parhau, a bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar ddiwedd mis Hydref.

Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

9. Derbyn adroddiad Data am y Farchnad Bwyd a Chrefftau o Ragfyr 2022 hyd at Fai 2023

Dosbarthwyd y ddogfen hon cyn y cyfarfod. Dangosodd y ffigyrau o'r adroddiad y bu i 1851 o gwsmeriaid fynychu'r 5 marchnad rhwng Rhagfyr ac Ebrill ac fe gynhaliwyd dros 190 o stondinau yn ystod y cyfnod. Erbyn hyn mae cyfeirlyfr o dros 80 o wahanol gyflenwyr ac mae dros £1600 wedi'i godi o ganlyniad i'r costau i gynnal stondinau. Talwyd £660 i'r Neuadd Gymunedol am logi'r ganolfan. Soniwyd bod angen denu mwy o ddarparwyr bwyd ac mae gwaith ar y gweill i gaffael mwy. Fodd bynnag, mae nifer o gynhyrchwyr bwyd yn gwerthu ar-lein yn sgil Covid a dydyn nhw heb ddychwelyd i werthu eu cynnyrch mewn marchnadoedd. Mae'n rhaid inni longyfarch y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol ar ddeilliannau'r prosiect hwn gan ei fod yn ganlyniad gwych, yn enwedig o ystyried y gwaith adfer angenrheidiol yn dilyn pandemig byd-eang a'r argyfwng costau byw. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer mainc picnic sy'n addas i bawb yng Ngerddi Fictoria Cytunwyd y gellir gohirio'r prosiect hwn tan yr Hydref **Penderfynwyd derbyn a nodi**

11. Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Ariannol – dim materion yn codi

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Gorffennaf 2023

Taliadau i'w cyflwyno
10. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Gorffennaf 2023 £4700
11. Menter Iaith Cyfieithu Cofnodion Mehefin a Gorffennaf £416.21
12. Viking – rholiau bach o bapur tŷ bach a thyweli sychu dwylo £119.88
13. Amazon Business – tatws dros dro - £2.25
14. Amazon Business – tatws dros dro – £5.46
15. Amazon Business – tatws dros dro - £8.98
16. Un Llais Cymru – Hyfforddiant i Gynghorwyr – Sgiliau Cadeirio y Cyng. Alun Rhys Jones £38.00
17. Aelodaeth Flynyddol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) ar gyfer 2023 - £222.00
18. Lwfansau'r Cynghorwyr 2023/24 13 x £156 yn unol â'r gofynion gorfodol £2028

Dim materion yn codi

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. R Jewell Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

13. Trafod materion cynllunio

0/50876 23 Parc Henblas Llanfairfechan Conwy LL33 0RW Torri un goeden dderw ac un goeden leim

0/50846 Sunnyholme Ffordd Bryn Llanfairfechan LL33 0DY Addasu garej

Dim arsylwadau ar gyfer yr un o'r ceisiadau
nodi

Penderfynwyd derbyn a

14. Derbyn gohebiaeth

1. Chwistrellu Glyffosad gan CBS Conwy – Chwistrellu yng Ngerddi Fictoria ac ar Ffordd yr Orsaf tra'r oedd disgyblion ysgol yn cerdded heibio – preswylwyr yn bryderus eu bod yn dal yn chwistrellu pob ardal. Mae'r Cyngor Tref yn cydnabod y pryderon ac fe ofynnwyd i'r Clerc e-bostio CBS Conwy i drafod y mater hwn a chrybwyll unwaith eto nad ydyn ni am iddyn nhw chwistrellu yng Ngerddi Fictoria a byddai'n well gennym ni pe baen nhw'n ystyried opsiwn arall ar gyfer chwistrellu yn y dref. Gofynnwyd hefyd i'r Clerc holi cynghorau tref eraill.

2. Mynwent Rhandir Hedd – Anfonodd breswilydd air o ddiolch i CBS Conwy am fynd i'r afael â'i phryderon ynghylch mynwent Rhandir Hedd. Mae'r ardal wedi'i dacluso erbyn hyn a'r isdyfiant wedi'i dorri. Clerc i e-bostio swyddog y fynwent.

3. Sylwadau gan breswilydd ynghylch tipio anghyfreithlon ym maes parcio Ffordd yr Orsaf: Pryderus dros ben ynghylch tipio anghyfreithlon yn y maes parcio ac yn siomedig iawn nad oes unrhyw beth wedi'i wneud i osod CCTV yno a rhoi'r cynllun gweithredu ar waith i liniaru'r broblem.

Clerc wedi e-bostio CBS Conwy a byddai'n anfon e-bost arall yn holi am ragor o wybodaeth. Soniwyd bod y Cyngor Tref wedi cytuno i ariannu CCTV yn rhannol ar gyfer yr ardal ynghyd â gosod rhybuddion i beidio â thipio'n anghyfreithlon, ond nid oes modd cyflawni hyn nes bod Conwy yn cwblhau eu gwaith nhw. Cadarnhawyd bod y Clerc wedi ychwanegu'r Cynghorydd Sir ar ran Bryn yn yr ohebiaeth ynghylch y mater hwn. Clerc i siarad gyda'r Cynghorydd Sir ar ran Pandy a soniodd mae'n bosibl bod rhagor o fanylion am hyn, unwaith y bydd yr wybodaeth wedi'i rhannu. Clerc i e-bostio CBS Conwy eto.

4. Coed yn y cae ger byngalos Llwyn y Gog: Derbyniwyd galwad ffôn gan breswilydd pryderus yn Llwyn y Gog Llanfairfechan ynghylch coed sydd dros 12 troedfedd yn y cae cyfagos a gwreiddiau sy'n tyfu i mewn i erddi ar hyd y rhes o fyngalos. Mae'r gwreiddiau sy'n weladwy yn y gerddi yn berygl baglu. At hyn, mae'r preswylwyr yn bryderus bod y gwreiddiau'n tyfu o dan eu hadeiladau. Y ddealltwriaeth yw bod y caeau cyfagos yn eiddo i CBS Conwy a Cartrefi Conwy. Gan hynny mae'r coed yn gyfrifoldeb i'r naill neu'r ddau o'r mudiadau hyn. Anfonwyd adroddiad at Gyngor Sir Conwy ac mae'r Clerc yn aros am ymateb. Clerc wedi cynghori'r preswilydd i gysylltu gyda'r Cynghorydd sir ar ran Bryn.

5. E-bost gan Swyddog Chwarae CBS Conwy – angen cyflawni gwaith brys yn y parc sglefrio.

Fe ddaeth David o hyd i ddyfynbris o £1540 i atgyweirio paneli yn y parc sglefrio fel rhan o waith arall sy'n cael ei gyflawni ar gyfer Conwy. Mae hwn yn is na dyfynbris arall (Ace Play £1655.50) ac yn sylweddol is nac un blaenorol a dderbyniwyd gan y cwmni oedd yn gyfrifol am eu gosod yn wreiddiol: (Fearless Ramps £2250). Cytunwyd y dylid derbyn y dyfynbris o £1540 – Clerc i weithredu hyn drwy anfon e-bost.

15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

Cyng. Leena Farhat – Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Babanod. Daeth dau o weinidogion Llywodraeth Cymru i'r ysgol yn ddiweddar. Yn dilyn yr archwiliad Estyn, fe ail-luniwyd y Cynllun Datblygu Ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion yn well ac mae hyn yn gam cadarnhaol ymlaen. Mae'r pennaeth yn dal yn gobeithio y bydd adeilad ysgol newydd ac mae'r holl adroddiadau wedi'u cyflwyno er mwyn ategu'r broses hon.

Cyng. Chris Jones – Grŵp Ymgysylltu gyda Chleifion Plas Menai – Pigiad yr eryr i bobl 70 + oed. Bydd angen un pigiad i'r rheiny sy'n ei derbyn ym mis Awst, a bydd angen dau os nad ydyn nhw'n ei dderbyn tan y gaeaf. Caiff pigiad niwmonia ei gynnig i bobl dros 65 yn fuan. Collwyd deuddydd o waith yn sgil problemau TG – codwyd pryder nad oedd y systemau wrth gefn yn effeithiol.

Maer Laura Fielding – Cyfarfod Cabinet CBS Conwy prinder difrifol o dai 1 ystafell wely a 4+ ystafell wely ledled Conwy. Derbyniwyd e-bost gan y Cyng. Emily Owen gyda'r dadansoddiad o ffigyrau ar gyfer Llanfairfechan. Clerc i'w rannu gyda'r Cyngor Tref lawn.

Cyng. Elgan Owen – Lansiad yr adroddiad Ymddiriedolaeth Trussell ynghylch tlodi bwyd yng Nghymru – caiff ei rannu gyda'r Cyngor Tref gyflawn. Canfyddiadau'n peri pryder mawr.

16. Derbyn materion brys i'w trafod

1. Pryder ynghylch y bont droed ar draws yr afon ger maes parcio'r Banc. Clerc i e-bostio eto gan fod y rhodfa wedi dirywio ymhellach.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30yh

Mae'r cyfarfod nesaf ar Fedi'r 6^{ed} 2023